Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-VG-2032-18

Dr Dai Lloyd AM
Chair, Health, Social Care & Sport Committee

23 July 2018

Annwyl Dai

Diolch am eich llythyr dyddiedig 3 Gorffennaf 2018 yn gofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf o gyfarfod y Grŵp Cynghori Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, i helpu gydag ymchwiliad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i atal hunanladdiad. Mae'r llythyr hwn yn canolbwyntio ar y meysydd y cyfeiriais atynt gerbron y Pwyllgor ar 27 Mehefin 2018.

I ddechrau, mynegodd y Pwyllgor bryderon am ddiffyg ymwybyddiaeth o'r adnodd 'Cymorth Wrth Law' a'i argaeledd. Bu'r Grŵp Cynghori yn ystyried hyn, ac ymysg y camau gweithredu uniongyrchol a gytunwyd mae gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i godi proffil yr adnodd hwn a chynyddu'r ymwybyddiaeth ohono. Mae Dr Liz Davies, Uwch Gynghorydd Meddygol Iechyd Meddwl ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ysgrifennu at Sefydliad Jacob Abraham a Tir Dewi gan ddarparu copïau o'r adnodd 'Cymorth Wrth Law'. Mae'r Athro Ann John hefyd wedi gwahodd y ddau sefydliad i gyfarfod Iechyd Cyhoeddus Cymru i drafod eu pryderon.

Cadarnhaodd y Grŵp Cynghori hefyd y bydd y fframweithiau hyfforddi ar gyfer atal hunanladdiad a hunan niweidio, y cyfeirir atynt yn yr adolygiad canol cyfnod, yn cael eu lansio yn Lloegr ym mis Gorffennaf. Cafwyd cyfraniadau gan Gymru wrth eu datblygu, ac mae'r Grŵp Cynghori yn ystyried eu mabwysiadu yma. Bu'r Grŵp Cynghori hefyd yn trafod llwybr cymorth ar ôl hunanladdiad a chamau posib i ystyried hyn yng Nghymru.

O ran ymgyrch benodol i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd, mae'r Grŵp Cynghori ar hyn o bryd yn adolygu'r ymgyrch ar hunanladdiad a stigma yn yr Alban, gan edrych ar y cynnydd a'r effaith, er mwyn llunio argymhellion ar gyfer camau gweithredu tebyg yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyried cysylltiadau â rhaglenni sydd eisoes yn bodoli, fel Amser i Newid Cymru a gwaith grŵp gorchwyl a gorffen y Bwrdd Partneriaeth Cenedlaethol ar stigma yn ymwneud ag iechyd meddwl.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor, mynegwyd pryderon hefyd am anghysondeb yng nghyfansoddiad a gweithrediad y Fforymau Rhanbarthol. Fel y dywedais wrth y Pwyllgor, mae'r Fforymau Rhanbarthol yn gyfrifol am eu strategaethau atal hunanladdiad eu hunain yn lleol, yn unol â chanllawiau'r Grŵp Cynghori. Mae'r Fforymau Rhanbarthol yn adrodd yn uniongyrchol wrth y Grŵp Cynghori, gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd mewn cyfarfodydd. Mae’r gwaith yn cael ei oruchwylio drwy'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol. Er bod disgwyl rhywfaint o amrywiad lleol ar sail anghenion lleol, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion godi'r pryderon hyn mewn cyfarfod o'r Grŵp Cynghori Cenedlaethol yn y dyfodol.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon o gymorth i'r Pwyllgor yn eich ymchwiliad.

Yn gywir

Vaughan Gething AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Cabinet Secretary for Health and Social Services